



CADWCH YN DDIOGEL – PRYNWCH YN LLEOL



Mae Cyngor Tref Caerfyrddin wedi sefydlu grŵp i sicrhau bod y dref yn barod ar gyfer ail agor cyn gynted a bydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu i hyn i ddigwydd. Mae'r grŵp, sy'n cynnwys Cyngor Tref Caerfyrddin, cynrychiolwyr o'r Siambr Fasnach, 'BID'(ADB), Marchnad Caerfyrddin, Bord Gron Caerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n cyfarfod drwy gyswilt fideo pob bore dydd Gwener.

DYDDIAD ALLWEDDOL

Disgwylir y cyhoeddiad nesaf gan Brif Weinidog Cymru Mark Drakeford i gymryd lle ar y 18fed o Fehefin, ac rydym yn disgwyl newyddion pwysig ynglŷn â phryd bydd mwy o siopau a busnesau yn gallu agor.

GWYBODAETH GAN LYWODRAETH CYMRU YNGLŷN Â CORONFEIRWS

Mae fwy o wybodaeth ynglŷn â sefyllfa'r Coronafeirws yng Nghymru ar gael gan Lywodraeth Cymru ar <https://gov.wales/coronavirus>

MARCHNAD CAERFYRDDIN

Mae Paul White, rheolwr Marchnad Caerfyrddin wedi diweddarau'r masnachwyr yn rheolaidd ynglŷn â sut y gallant baratoi ar gyfer ailagor. Gellir cysylltu gyda Paul ar: PMWhite@carmarthenshire.gov.uk

SIOPAU RHODFA MYRDDIN A RHODFA SANTES CATRIN

Mae Claire Kirkham claire.kirkham@merlinswalk.com a John Nash CentreManager@stcatherineswalk.com wedi bod yn gweithio gyda'r holl fusnesau, ac mae'r paratodau ar gyfer ailagor y siopau yn symud ymlaen.



ASESIADAU RISG AC IECHYD A DIOGELWCH

Cyfrifoldeb pob busnes eu hun yw sicrhau bod eu hadeiladau yn ddiogel ac yn cydymffurfio'n llawn gyda rheoliadau cenedlaethol cyn ailagor.

PWYNTIAU ALLWEDDOL:

- 1 **Awyru** - gwnewch yn siŵr bod hyn cystal ag y gall fod
- 2 **Hylendid** – dylai dŵr a sebon neu gel glanweithio bod ar gael yn rhwydd
- 3 Mae **Pellter Cymdeithasol** o 2 fedr yn angenrheidiol ar bob adeg, tu fewn a thu allan i siopau ac adeiladau busnes
- 4 **Trin Arian Parod** - bydd angen gweithdrefnau mewn lle i hwyluso'r broses o drin arian parod yn ddiogel gyda chwsmeriaid

Gellir cael fwy o wybodaeth ynglŷn â chynghor am iechyd a diogelwch gan gynnwys asesiadau risg ar wefan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar: <https://www.hse.gov.uk/news/working-safely-during-coronavirus-outbreak.htm>

<https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/risk/index.htm>

MISYRNAU HWYNEB

Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn darparu hyd at bedwar miswrn hwyneb, sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol, i fusnesau a siopau lleol sydd eu hangen ar gyfer eu staff. Os ydych angen rhai yna cysylltwch â ajharries@carmarthentowncouncil.gov.uk

BASGEDI CROG

Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn darparu basgedi crog am ddim yr haf hwn i'r holl fusnesau a gefnogodd y cynllun llynedd, ac mae'r rhain eisoes wedi dechrau mynd i fyny.

Os oes gennych unrhyw syniadau neu awgrymiadau ar sut y gall y grŵp hwn eich helpu chi fel busnes/masnachwr lleol yn ystod y cyfnod hwn neu os hoffech chi ymuno â'r grŵp yna cysylltwch gyda Chlerc y Dref, Alun Harries ar ajharries@carmarthentowncouncil.gov.uk neu gyfleuster Gofal Cymunedol Cyngor Tref Caerfyrddin ar carmarthencommunitycare@gmail.com